PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 21 GORFFENNAF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McKerlich(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells a/ac Stubbs |

9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Hyde, Javed a Simmons. Roedd y Cynghorydd Howells wedi rhoi gwybod y byddai'n cyrraedd yn hwyr.

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

11 : ARDAL GWELLA BUSNES CAERDYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr Arweinydd, y Cynghorydd Phil Bale, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, Neil Hanratty a Jon Day, Rheolwr Polisi Economaidd i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad, ac fe ddywedodd ei fod wedi bod â bwriad i gefnogi'r AGB yr oedd y pwyllgor wedi bod ynghlwm wrth ers tro; roedd yn fodlon ar ganlyniadau'r bleidlais a oedd wedi dangos bod 84% o'r rhai a bleidleisiodd yn cefnogi'r AGB; roedd yn gweithio gyda phartneriaid erbyn hyn i bennu sut byddai'r arian yn cael ei wario; roedd yr unigolion oedd ynghlwm wedi dangos egni ac ymrwymiad ac roedd hyn yn stori newyddion da i Gaerdydd.

Rhoddodd Jon Day gyflwyniad ar yr Ardal Gwella Busnes – Cafwyd diweddariad oedd yn cynnwys gwybodaeth ar Ganlyniadau'r Bleidlais AGB, Pwrpas yr Adroddiad, Rheoli Canol y Ddinas, Benthyciad Arian, Enwebiadau'r Bwrdd a'r Camau Nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw syniadau am brojectau posib ar gyfer yr AGB.
  Bu i'r Swyddogion ddatgan y byddai'r cyfnod cyn y Nadolig a marchnata yn flaenoriaethau, a bod Prentisiaethau a Chefnogi Isadeiledd Digidol ar gyfer busnesau llai yn rhai o'r projectau. Nododd yr Arweinydd ei fod wedi siarad â Chadeirydd yr AGB a bod awydd i hybu dyddiadau penodol megis y Champions League.

  Gofynnodd Aelodau ai hybu oedd y prif flaenoriaeth yn hytrach na chynyddu a symud ymlaen â'r AGB; dywedodd swyddogion y byddai ystod eang o waith hyrwyddo ond y byddai hefyd cynnydd amgylcheddol megis mwy o lanhau strydoedd, gwelliannau i'r strydwedd ac ymrwymiad i Economi'r Hwyrnos.

- Gan gyfeirio at Enwebiadau i'r Bwrdd, gofynnodd Aelodau a fyddai trawstoriad o ran pleidiau'r Aelodau etholedig ar y Bwrdd.
  Eglurodd yr Aelodau mai'r Arweinydd fyddai'n gweithredu fel cynrychiolydd yr aelodau etholedig; dylai'r Bwrdd gael ei redeg gan fusnes yn hytrach na'r Cyngor. Dywedodd y Swyddogion eu bod wedi ymrwymo i gysylltu gyda'r holl Aelodau lleol ac y byddai Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd yn gyfrifol dros wneud hyn ar gyfer y Bwrdd. Byddai'r aelodau Bwrdd sydd ar ôl yn talu ardoll ynghyd â'r Heddlu, a Chadeirydd y Bwrdd fyddai Rheolwr Siop Marks and Spencer's; byddai'r Bwrdd yn gweithredu fel dull ymgysylltu, cynrychioli ac fe fyddai'n cynorthwyo o ran lobio.

Diolchodd y Cadeirydd i'w Swyddogion a'r Arweinydd am fynychu'r cyfarfod.

CYTUNWYD – Y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Arweinydd er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 12 : MODEL DARPARU AMGEN RHEOLI CANOLFANNAU HAMDDEN

Eglurodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol y byddai unrhyw gyflwyniad, trafodaeth neu gwestiynau yn ymwneud â'r papurau melyn (Atodiad B a'r atodiadau cysylltiedig) ym mhapurau'r Pwyllgor yn cael eu cynnal yn gyfrinachol, ac ar y pwynt hynny yn y cyfarfod byddai gofyn i'r cyhoedd a'r wasg adael yr ystafell.

Byddai sesiwn agored cychwynnol yn cael ei chynnal lle byddai swyddogion yn amlinellu'r project caffael ehangach a'r argymhellion i'r Cabinet. Byddai'r cyfarfod yn symud i sesiwn gaeedig lle byddai modd trafod yr wybodaeth oedd yn cael ei hystyried yn sensitif.

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Bradbury – Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol, Cydweithrediadau a Menter Gymdeithasol; y Cyng. Hinchey – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyllid; Paul Orders – Prif Weithredwr; Christine Salter – Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau; Andrew Gregory – Cyfarwyddwr, Gweithrediadau'r Ddinas; Malcolm Stammers - Rheolwr Gweithredol, Hamdden a Chwarae; Liz Weale - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Gweithredol, Partneriaethau a Chaffael; Chris McLellan – Cyfarwyddwr Corfforaethol – Comisiynu a Chaffael; Sue David – Cyfrifydd, Datblygu Sefydliadol a Tracey Thomas – Rheolwr Gweithredol, AD

Bu i'r Cadeirydd wahodd y Cyng. Bradbury i wneud datganiad, ac fe ddywedodd fod y mater hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers 2014, roedd grŵp gorchwyl a gorffen Economi a Diwylliant wedi edrych ar y mater ac roedd bellach wrthi'n dod i gasgliad.

Bu i'r Cadeirydd wahodd Swyddogion i roi trosolwg o'r project caffael a'r cynigion i Cabinet. Cafodd yr Aelodau gyflwyniad oedd yn cynnwys gwybodaeth ar Nodau, Diweddariad ar Gaffael, Buddion ariannol, Adeiladau a thiroedd y Cyngor, Lefelau Gwasanaeth oedd wedi eu diogelu, Buddion i Weithwyr, Amserlen penderfynu, Ymgysylltiad Gweithwyr ac Argymhellion Drafft y Cabinet.

Dywedodd y Cadeirydd wrth bawb yn y cyfarfod, er mwyn cyfeirio at wybodaeth wedi ei heithrio, nid er cyhoeddi drwy baragraff 14 Rhan 4, a pharagraff 21 Rhan 5 o

Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, roedd rhaid gofyn i aelodau'r cyhoedd a'r wasg adael yr ystafell bwyllgor.

Yna, aeth y cyfarfod i mewn i sesiwn gyfrinachol.

## 13 : RHAGLEN WAITH 2016-17

Gofynnod y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried rhestr yr eitemau ar gyfer y rhaglen waith ac i nodi eu chwe phrif flaenoriaeth i'r Prif Swyddog Craffu.

## 14 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ar ddydd Iau 8 Medi 2016 am 4.30, Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.